**Gwesty Parc y Strade:** Cwestiynau Cyffredin: Medi 2023

## Mynegai


**Tudalen 2 - Trosolwg**

**Tudalen 3 - Swyddfa Gartref**

**Tudalen 8 - Clearsprings Ready Homes**

**Tudalen 12 - Migrant Help**

**Tudalen 14 -  Cyngor Sir Gâr**

**Tudalen 15 - Heddlu Dyfed Powys**

**Tudalen 21 - Bwrdd Iechyd Hywel Dda**

## Trosolwg

Cynhaliodd Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru sesiwn wybodaeth ar-lein fyw i'r cyhoedd ddydd Mawrth, 22 Awst 2023 i fynd i'r afael â phryderon trigolion lleol am y defnydd o westy Parc y Strade.   Roedd fideo o'r sesiwn ar gael am wythnos yn dilyn y digwyddiad.

Yn y sesiwn, aeth cynrychiolwyr o'r Swyddfa Gartref, Clearsprings Ready Homes, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Cyngor Sir Gâr, Heddlu Dyfed Powys a Migrant Help i'r afael â phroblemau a chwestiynau a godwyd gan drigolion lleol.

Cyflwynwyd gwybodaeth ffeithiol a chlir yn y sesiwn wybodaeth i'r cyhoedd a darparwyd y cyd-destun cenedlaethol am yr angen i ddefnyddio'r gwesty, ymateb yr heddlu, sicrwydd am weithrediad y safle a sut bydd Clearsprings Ready Homes (CRH) ac asiantaethau lleol yn cefnogi'r teuluoedd a gaiff eu lleoli yn y gwesty.

Mae'r ddogfen Cwestiynau Cyffredin hon yn cynnig atebion i gyfres o'r cwestiynau a gyflwynwyd gan aelodau o'r cyhoedd drwy fewnflwch a sefydlwyd cyn y sesiwn wybodaeth, yn ogystal â'r wybodaeth a rannwyd gan gyfranwyr yn y fideo a'r darllediad byw, a'r cwestiynau a atebwyd yn y sesiwn.

Mae rhai addasiadau bychain wedi'u gwneud i eiriad rhai o gwestiynau'r unigolion i sicrhau eu bod yn glir ac yn dryloyw, heb newid bwriad na ffocws cyffredinol y cwestiynau.  Cyfunwyd unrhyw gwestiynau a gafodd eu gofyn gan wahanol bobl.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â WSMPComms@wlga.gov.uk

Mae'r Cwestiynau Cyffredin hyn ar gael ar

Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru | Wales Strategic Migration Partnership (wsmp.wales)

## Y Swyddfa Gartref

1. **Pam ei bod wedi cymryd cymaint o amser i'r Swyddfa Gartref ymgynghori/ymgysylltu gyda phobl yn yr ardal leol?**

   Rydym yn ymgysylltu â budd-ddeiliaid lleol megis Llywodraethau Datganoledig, Cynghorau lleol, partneriaid iechyd, yr heddlu a'r gwasanaeth Tân ac Achub. Rydym yn gwneud hyn er mwyn sicrhau bod partneriaid lleol a fydd yn darparu gwasanaethau statudol yn cael gwybod cyn gynted â phosibl ac fel bod y Swyddfa Gartref a darparwyr llety'n ymwybodol o effaith debygol y defnydd o unrhyw westy. Mae hyn hefyd yn rhoi amser i'r Swyddfa Gartref a'i ddarparwyr weithio ar strategaeth liniaru er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw feysydd sy'n peri pryder i bartneriaid.

   Mae'r strategaeth ymgysylltu hon wedi bod yn llwyddiannus ar draws gweddill y DU ac rydym yn ei dilyn ym mhob achos o ddefnyddio safle llety wrth gefn. Fodd bynnag, rydym wedi cydnabod y teimladau cryf yn yr ardal leol am y defnydd o Barc y Strade, ac yn dilyn ymgysylltiad manwl gyda phartneriaid lleol, fe wnaethom gymryd rhan yn y digwyddiad darlledu ar 22 Awst.

2. **Pam na ymgysylltwyd â phobl Ffwrnes a Llanelli mewn perthynas â lletya ceiswyr lloches?**

   Mae'n rhwymedigaeth statudol ar y Swyddfa Gartref i gefnogi a darparu llety i geiswyr llety a fyddai fel arall yn amddifad. Er mwyn bodloni'r rhwymedigaeth hon, mae'n rhaid sicrhau bod llety digonol ar gael bob amser i fodloni'r galw ac yn aml iawn mae'n rhaid gwneud trefniadau ar fyr rybudd. Byddwn bob amser yn ymgysylltu â phartneriaid statudol lleol cyn defnyddio safle.

   Rhennir y llety a ddefnyddiwn i ddau gategori cyffredinol- Llety Cychwynnol a Llety Gwasgaru. Mae Parc y Strade wedi cael ei ddynodi fel llety wrth gefn sy'n golygu mai llety dros dro ydyw nes bydd modd symud y preswylwyr i lety mwy parhaol ar draws y DU.

   Mae ein darparwyr llety'n nodi bob eiddo, Tai Amlfeddiannaeth neu fflatiau hunangynhwysol fel arfer, ac yn cyflwyno pob cynnig i'r Cynghorau lleol. Mae bob Cyngor lleol yng Nghymru, yr Alban a Lloegr wedi cytuno i nifer benodol o ofodau gwely yn eu hardal. Ar gyfer bob eiddo sydd â 'gofod gwely', rhoir cyfle i'r Cynghorau lleol gynnig adborth ar y cynnig ac amlygu unrhyw beth sy'n peri pryder iddynt am leoliad yr eiddo, y math o eiddo, yn ogystal ag unrhyw elfennau iechyd a diogelwch yn yr eiddo y byddai'n rhaid mynd i'r afael â hwy.

3. **A gynhaliwyd asesiad o effaith mewn perthynas â defnyddio gwesty yn Ffwrnes a Llanelli - a beth oedd y canfyddiadau?**

Nid yw'r Swyddfa Gartref yn cynnal asesiadau o effaith unigol ar bob eiddo neu safle gwesty y mae ein darparwyr yn eu nodi. Cynhaliodd y Contractau Llety a Chymorth i Geiswyr Lloches presennol Asesiad manwl o Effaith ar Gydraddoldeb cyn gweithredu. Mae darparwyr llety'n dilyn proses diwydrwydd dyladwy i sicrhau fod bob safle'n ddiogel ac yn briodol i letya pobl sy'n derbyn cefnogaeth ceisio lloches nes bydd eu cais wedi cael ei brosesu.

4. **A yw'r Swyddfa Gartref yn ymwybodol o'r effaith y mae hyn eisoes yn ei chael ar dwristiaeth leol a'r fasnach hamdden?**

   Mae'r Swyddfa Gartref yn deall y pwysau ehangach y mae llety fel hyn yn ei gael ar dwristiaeth a masnach leol yn y gymuned, fodd bynnag, mae'n rhaid i ni gydbwyso'r pryderon hyn gyda'n rhwymedigaeth statudol i ddarparu llety i geiswyr lloches amddifad dan Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999.

5. **Pa fesurau ydych chi'n eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â phryderon trigolion lleol?**

   Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid lleol, gan gynnwys yr heddlu a Chynghorau lleol i ddarparu gwybodaeth bellach i helpu i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd sy'n peri pryder i drigolion lleol.

6. **A allwch chi gadarnhau y byddwch yn mynd i'r afael ag unrhyw gwestiynau neu bryderon a godwyd yn y sesiwn hon ac yn newid cynlluniau lle bo angen?**

   Wrth sefydlu safle gwesty newydd, byddwn yn ystyried unrhyw bryderon a godwyd, a lle bo hynny'n briodol, mae'n bosibl y byddwn yn addasu ein cynlluniau gan ystyried yr angen i fodloni ein rhwymedigaeth statudol dan Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999.

7. **Pam nad yw'r Swyddfa Gartref, CRH na Sterling Woodrow wedi cyfathrebu â ni o gwbl?**

   Gweler yr ymateb uchod.

8. **Pa gyllid fydd ar gael i'r gymuned leol o ganlyniad i'r 241 o bobl yn cyrraedd?**

   Ychydig iawn o gefnogaeth ychwanegol y gallwn ni ei chynnig yn uniongyrchol, ond gallwn ddarparu sicrwydd mai mesur dros dro yw defnyddio'r gwesty hwn er mwyn helpu i reoli nifer uchel o geiswyr lloches nes bydd ein darparwyr gwasanaeth wedi cynyddu eu llety cychwynnol a llety gwasgaru.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar y mesurau a ddefnyddir i wella'r system ceisio lloches yma:

https://homeofficemedia.blog.gov.uk/2023/04/03/accommodation-sites-factsheet-april-2023/
https://www.gov.uk/government/publications/asylum-dispersal-grant-2-funding-instruction/funding-instruction-for-local-authorities-asylum-dispersal-grant-2022-2023-accessible-version

9. **Pa gamau ymarferol sydd ar y gweill gan y Swyddfa Gartref, Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol i fynd i'r afael â'r rhaniadau yn y gymuned a achoswyd gan y cynigion hyn (gweler CCC hefyd).**

Rydym yn cydnabod y teimladau cryf am y cynnig hwn ac rydym yn ymrwymo i barhau i weithio gyda phartneriaid lleol sy'n gyfrifol am gydlyniad cymunedol.

10. **A fyddech cystal ag egluro statws cyfreithiol ceiswyr lloches e.e. eu hawl cyfreithiol i geisio diogelwch, llety a chefnogaeth wrth i'w ceisiadau gael eu hasesu.**

Bydd y Bil Ymfudo Anghyfreithlon yn golygu y bydd pobl sy'n cyrraedd y DU mewn modd anghyfreithlon yn cael eu cadw a'u cludo'n ôl i'w gwlad wreiddiol neu drydedd wlad ddiogel.

Mae'r bobl a gaiff eu lletya'n geiswyr lloches, a fyddai fel arall yn amddifad. Er y bydd rhai ohonynt wedi cyrraedd y DU mewn modd anghyfreithlon, mae eu presenoldeb yn y DU yn gyfreithlon nes bydd eu ceisiadau ceisio lloches wedi cael eu hystyried.

Caiff ceisiadau ceisio lloches eu cyflwyno o fewn y DU i system ceisio lloches y DU, mae'n rhaid eu hystyried yn llawn ac yn ofalus er mwyn sicrhau nad ydym yn symud unrhyw un sy'n wynebu erledigaeth neu niwed difrifol yn ôl i'w gwlad wreiddiol.

Cynigir amddiffyniad fel arfer os bydd gan ymgeisydd ofn sydd â sail gadarn o gael ei erlyn dan y Gynhadledd Ffoaduriaid, neu'n wynebu risg wirioneddol o niwed difrifol. Bydd y rheiny sy'n gymwys fel arfer yn cael caniatâd i aros am bum mlynedd ac yn cael mynediad at y farchnad lafur a chymorth lles. Bydd unrhyw un na ystyrir bod arnynt angen eu diogelu'n cael eu gwrthod. Unwaith y bydd eu hawl i apelio wedi dod i ben, bydd disgwyl iddynt adael y DU. Ni fyddwn yn anfon unrhyw un yn ôl i'w gwlad wreiddiol neu wlad arall os oes perygl iddynt wynebu erledigaeth neu niwed difrifol.

Bydd unrhyw un na ystyrir bod arnynt angen eu diogelu'n cael eu gwrthod, ac mae modd herio'r penderfyniad hwnnw lle bo hynny'n briodol naill ai drwy apelio i'r llysoedd annibynnol neu drwy adolygiad barnwrol, yn ddibynnol ar y penderfyniad dan sylw. Unwaith y bydd yr hawl i apelio wedi dod i ben,

disgwylir iddynt adael y DU. Bydd y rhai nad ydynt yn gadael yn wirfoddol yn cael eu gorfodi i adael.

**11. A fyddech cystal â chadarnhau nifer y bobl a fydd yn cael eu lleoli yn y gwesty ac am ba hyd.**

Mae'r Swyddfa Gartref yn bwriadu lletya grwpiau teulu ar y safle, ac mae hyd at 241 o lefydd ar gael. Defnyddir y term “grwpiau teulu” i ddisgrifio cyplau sy'n oedolion heb blant, cyplau sy'n oedolion gyda phlant, neu rieni sengl gyda phlant. O ystyried cynllun yr ystafelloedd ar y safle, eu maint a nifer y gwelyau, ni fyddwn yn ei ddefnyddio i letya merched neu ddynion sengl.

**12. A fyddech cystal â chadarnhau'r ystod o oedrannau a gwledydd gwreiddiol y ceiswyr lloches a fydd yn cael eu lletya a'ch diffiniad o 'deuluoedd'.**

Mae ein system letya'n ddynamig ac yn seiliedig ar alw, ac felly ni allwn gadarnhau manylion pendant am oedran a gwledydd gwreiddiol y ceiswyr lloches a fydd yn aros ym Mharc y Strade ymlaen llaw. Mae'r ddemograffeg yn debygol o adlewyrchu tueddiadau cyfredol a diweddar o ran y boblogaeth o geiswyr lloches cenedlaethol.

**13. A yw manylion adnabod bob un o'r ceiswyr lloches wedi cael eu dilysu a'u gwirio? Pa wiriadau sydd wedi cael eu cynnal mewn perthynas â chofnodion troseddol a phryd?**

Mae'n ddyletswydd ar Lywodraeth y DU i ddiogelu'r DU a'i thrigolion, a chynhelir gwiriadau diogelwch ar bob ceisiwr lloches gan ddefnyddio cronfeydd data mewnfudo a'r heddlu i nodi'r rhai sydd wedi bod yn gysylltiedig â throseddau yn y DU a thu hwnt - gan gynnwys troseddau rhyfel, troseddau yn erbyn dynoliaeth a therfysgaeth.

**14. Faint o'r ceiswyr lloches sydd â chofnod troseddol, ac a yw'r troseddau wedi cael eu dilysu?**

Pan fydd gwiriadau'n datgelu tystiolaeth o hanes troseddol, naill ai pan fyddant yn cyrraedd y DU neu'n dilyn hynny, ystyrir amrywiaeth o faterion gan gynnwys priodoldeb unrhyw lety penodol.

**15. Pa ddogfennaeth adnabod fydd gan bobl?**

Bydd gan rai ceiswyr lloches eu pasbortau a'u dogfennau teithio eu hunain.

Fodd bynnag, mae nifer o geiswyr lloches yn cyrraedd heb ddogfennau, a chaiff gwiriadau eu cynnal ar unwaith i sefydlu eu hunaniaeth. Bydd y rhai a fydd yn

aros ym Mharc y Strade'n derbyn cerdyn cofrestru lloches unwaith y byddant wedi cyflwyno eu cais am loches.

**16. A oes asesiadau risg manwl wedi eu cynnal? Os felly, pam nad yw trigolion lleol wedi cael gwybod am hyn gan mai ni fydd yn cael ein heffeithio fwyaf?**

Mae'n ofynnol i ddarparwyr lloches asesu risg yn rheolaidd fel mater o drefn wrth ddarparu ein gofynion contract. Mae hyn yn cynnwys defnyddio lleoliadau unigol, yn ogystal â risgiau mwy cyffredinol ar draws y system mewn perthynas â defnyddio llety wrth gefn. Mae cyfarfodydd llywodraethu contractau ffurfiol yn adolygu ac yn asesu'r risg o ddefnydd wrth gefn yn fisol ac yn chwarterol, a byddwn yn trafod safleoedd unigol yn fwy rheolaidd drwy ddarparu'r contractau o ddydd i ddydd.

**17. A fyddech cystal â chadarnhau pa wiriadau mae'r Swyddfa Gartref yn eu cynnal i sicrhau fod ystyriaethau iechyd cyhoeddus yn cael eu cymryd i ystyriaeth mewn gweithrediadau gwasgaru.**

Dan ganllawiau newydd, ni fydd unrhyw un sydd â symptomau (gan gynnwys y rhai sydd wedi cael prawf positif) o glefyd heintus yn y ganolfan brosesu Manston yn symud ymlaen i'r ystâd llety ceiswyr lloches.

Bydd ceiswyr lloches naill ai'n aros yn y ganolfan Manston i hunanynysu am gyfnod byr neu'n cael eu lleoli yn llety hunanynysu arbennig y Swyddfa Gartref yn Ne Ddwyrain Lloegr. Mae'r llwybr newydd hwn yn ategu at y gwasanaethau iechyd presennol a ddarperir ar unwaith pan fydd unigolion yn cyrraedd safle Western Jet Foil (WJF) a'r ddarpariaeth gofal iechyd 24/7 a gynigir ym Manston, sy'n cynnwys cynnig brechlyn difftheria arbennig. Rydym hefyd wedi datblygu proses sgrinio a phrofi ar gyfer cyflyrau heintus gan ymgynghori â'r GIG.

Yn ogystal â hynny, rydym yn gweithio gydag Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU i gryfhau ein gweithdrefnau profi a sgrinio ar gyfer cyflyrau heintus, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) Difftheria.

Mae rheoli lledaeniad Difftheria a chyflyrau posibl eraill, a thrin unigolion sydd â symptomau, yn ymdrech ar y cyd rhwng y Swyddfa Gartref, Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, gwasanaethau GIG lleol ac awdurdodau lleol. Rydym yn ymwybodol bod risg uchel o haint yn y boblogaeth o geiswyr lloches o'i gymharu â'r cyhoedd cyffredinol - mae hyn yn rhannol o ganlyniad i ddiffyg gofal iechyd a chyfraddau brechu is yn eu gwledydd gwreiddiol, ac amgylchiadau cyfyng a gorlawn ar eu siwrnai i'r DU. Mae'r difrifoldeb yn amrywio ac mae'r mwyafrif o achosion yn rhai risg isel.

## Clearsprings / Ready Homes

1. **A allwch chi egluro pam fod Clear Springs yn targedu Llanelli ar gyfer llety? (cyfeiriad at nifer o dai ar werth yn Llanelli sydd wedi cael eu prynu a'u cynnig i Clearsprings). A fydd unigolion yn cael eu lletya yn y gymuned neu eu gwasgaru i fannau eraill?**

   Mae Clearsprings Ready Homes (CRH) yn un o dri o ddarparwyr llety a gaiff eu contractio gan y Swyddfa Gartref dan y Contract Llety a Gwasanaethau Cefnogi Ceiswyr Lloches ac felly mae gofyn cytundebol arnynt i ddarparu llety diogel a chyfanheddol.

   Yn sgil y nifer uchel o unigolion a theuluoedd sy'n ceisio lloches ar hyn o bryd, bu'n rhaid i CRH gysylltu gyda phob awdurdod lleol a Chyngor er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau cytundebol, a chynyddu nifer yr ardaloedd lle caiff ceiswyr lloches eu lletya ar hyn o bryd. Mae CRH yn gweithredu mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol ac yn cydweithio er mwyn darparu'r llety mwyaf priodol i'r ceiswyr lloches unigol.

2. **Pam wnaethoch chi ddewis gwesty lle'r oedd 70 o briodasau wedi cael eu harchebu? Pam na wnaethoch chi ddewis gwesty mewn dinas fawr, lle byddai'r effaith gymdeithasol ac economaidd wedi bod yn llawer llai?**

Cynigwyd Gwesty Parc y Strade gan y perchnogion a oedd yn colli arian yn sgil diffyg gwesteion. Yn hytrach na chau, penderfynodd y gwesty gofrestru ar gyfer y cynllun lletya ceiswyr lloches.

3. **Pam nad oedd yna unrhyw gymalau i sicrhau na fydd aelodau staff yn colli eu gwaith? Mae effaith colli swyddi ar y gymuned yn broblem sylweddol sy'n deillio o newid defnydd y gwesty.**

Mae bob amser yn well gan CRH recriwtio unigolion sydd eisoes ar y safle gan eu bod yn adnabod yr adeilad ac yn elwa o wybodaeth am yr ardal leol. Cafodd bob un o'r swyddi sydd ynghlwm â chynnal y gwesty ar gyfer y ceiswyr lloches (derbynyddion, swyddogion lles, staff arlwyo, glanhawyr ac ati) eu cynnig i'r staff. Er

bod rhaid defnyddio staff dros dro ar hyn o bryd, byddai CRH yn blaenoriaethu ceisiadau gan staff blaenorol Parc y Strade pe baent yn ymgeisio am y swyddi hyn.

4. **A fyddech cystal â chadarnhau pryd fydd y gwesty'n cael ei ddefnyddio a hyd y contract. A fydd y gwesty'n llawn drwy'r amser?**

   Bydd y gwesty'n cael ei ddefnyddio i ddarparu ar gyfer y llif o geiswyr lloches yn y wlad, sy'n amrywio'n dragwyddol. Bydd CRH yn derbyn oddeutu 24 awr o rybudd am unrhyw deuluoedd a fydd yn cael eu hanfon i Barc y Strade. Mae'n annhebygol y bydd yn llawn bob dydd.

   Bydd y ceiswyr lloches a fydd yn cael eu lleoli yn y Gwesty yn mynd drwy gamau cyntaf y broses o ymgeisio am loches. Yn y pen draw, bydd teuluoedd yn cael eu hail-leoli o Barc y Strade i Lety Gwasgaru ar draws y Deyrnas Unedig.

5. **Pa gyfleusterau fydd ar gael yn y gwesty? Faint o staff a swyddogion diogelwch fydd yn y gwesty ar y tro?**

Bydd ceiswyr lloches yn cael ystafelloedd teulu a rannir, ardaloedd cymunedol i ymlacio, gwylio'r teledu a chymdeithasu gyda'i gilydd, byddant yn derbyn tri phryd y dydd ac yn cael mynediad at gyfleusterau te, yn ogystal â Wi-Fi a chludiant bws gwennol i fannau addoli ac apwyntiadau meddygol ac ati lle bo angen.

6. **Amlinellwch y ddarpariaeth bwyd a sut mae'n bodloni gofynion crefyddol a maeth.**

Mae maethegydd cymwys yn paratoi'r fwydlen sy'n cynnwys brecwast poeth ac oer, cinio poeth (gydag opsiwn llysieuol) a swper poeth. Mae'r cig yn addas ar gyfer diet Halal. Y nod yw bodloni gofynion unigolion o ran maetheg a blas, felly caiff y fwydlen ei pharatoi gan amlaf gan gymryd gwlad wreiddiol fwyaf tebygol yr unigolion i ystyriaeth wrth ddewis prydau. Fe'u hanogir i gynnig adborth (yn ddienw) a chymerir camau dilynol lle bo modd.

7. **Gan na chaniateir i geiswyr lloches weithio, pa weithgareddau fydd ceiswyr lloches yn gallu eu gwneud yn ystod y dydd/nos?**

Mae CRH yn darparu teledu, Wi-Fi a gemau sydd yn aml yn cael eu rhoi gan elusennau lleol. Caniateir i drigolion adael y safle a defnyddio'r bws gwennol i ymweld â mannau addoli lleol ac ati. Mae sefydliadau cymorth lleol eisoes wedi cysylltu â'r Swyddfa Gartref i gynnig cefnogaeth megis hyfforddiant Saesneg, ac mae CRH a'r Swyddfa Gartref yn croesawu unrhyw gynigion cymorth.

8. **Mae gwaith adfywio / ailfodelu'n mynd rhagddo yn y gwesty. A yw'r prosesau cywir wedi cael eu dilyn?**

Gwaith atgyweirio i ddifrod a achoswyd yn ddiweddar sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd, nid gwaith ailfodelu. Ym mhob achos, dilynir y prosesau cywir.

9. **A oes cofrestr asbestos ar waith ar gyfer gwaith adeiladu sy'n mynd rhagddo?**

   Oes.

10. **A oes arolwg ystlumod wedi cael ei gwblhau i asesu'r risg i unrhyw ystlumod sydd o bosibl yn nythu yn nho'r gwesty ac ati? Sut ydych chi'n ymdrin â rheoli gwastraff?**

    Nid oes tystiolaeth o ystlumod yn yr adeilad.

    Mae'r sbwriel a'r deunydd adeiladu y tu allan i'r gwesty wedi cael eu clirio.

11. **Gyda'r gwaith adeiladu'n mynd rhagddo, a yw'r system larwm tân a'r system ataliad tân yn parhau i fod yn weithredol? Os ddim, a yw cwmni yswiriant y safle wedi cael gwybod am hyn ac a oes ganddynt unrhyw delerau'n ymwneud â gwaith poeth ac ati?**

Mae bob rheoliad tân yn cael ei fodloni ac ar gael i'w gwirio gan yr Awdurdod Tân ac Achub a'r Awdurdod Lleol.

12. **Sut fydd hawliau ceiswyr lloches i symud yn rhydd ac yn ddiogel i mewn ac allan o'r gwesty'n cael ei ddiogelu?**

Gobeithir y bydd yn ddiogel i geiswyr lloches gerdded y tu allan i'r gwesty. Bydd rheolau ymddygiad arferol a darpariaeth yr heddlu'n berthnasol iddynt yn yr un modd â phob trigolyn lleol. Bydd Tîm Diogelu CRH yn gweithio'n agos gydag Awdurdodau Lleol a'r Heddlu i rannu gwybodaeth berthnasol a gwneud atgyfeiriadau ar gyfer ceiswyr lloches diamddiffyn sydd o bosibl yn wynebu risg o niwed.

13. **A fydd swyddogion diogelwch y gwesty'n gwybod faint o bobl sydd wedi gadael y gwesty yn ystod y dydd? Sut fyddwch chi'n ymdrin â phobl yn dianc? Pa broses sydd ar waith i rybuddio'r awdurdodau, a phwy fyddant yn rhybuddio?**

    Bydd gan y gwesty gofrestr ddyddiol, a bydd yn rhaid i bob Defnyddiwr Gwasanaeth arwyddo i mewn ac allan wrth iddynt adael a chyrraedd y safle. Mae'r Gofrestr hefyd yn gweithredu fel Cofrestr Tân mewn achosion o argyfwng ac mae'n rhan o'n Gweithdrefnau Tân a Gwagio.

*Ni* fydd ceiswyr lloches yn y Gwesty'n cael eu cadw ar y safle a byddant yn rhydd i aros mewn lleoliadau eraill oni bai am eu llety cyn belled â'u bod yn rhoi gwybod i'r Swyddfa Gartref a CRH. Os bydd unigolyn diamddiffyn yn gadael y Gwesty i fyw yn rhywle arall heb roi gwybod i'r Swyddfa Gartref neu CRH ble maent yn byw, bydd tîm Diogelu CRH yn rhoi gwybod i'r Swyddfa Gartref, yr Awdurdod Lleol a'r Heddlu.

Os bydd preswylydd yn absennol am fwy na saith niwrnod, byddwn yn ystyried bod eu hystafell yn wag a bydd y Swyddfa Gartref yn ei dyrannu i deuluoedd eraill.

**14. Sut fyddwch chi'n sicrhau diogelwch teuluoedd sy'n ceisio lloches a'u hintegreiddiad i'r gymuned leol?**

Mae CRH yn croesawu cymorth gan grwpiau ac asiantaethau lleol i gefnogi'r ceiswyr lloches i integreiddio'n gymdeithasol. Mae CRH hefyd yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol a chydweithwyr y GIG sy'n gallu helpu i'w cofrestru mewn ysgolion a meddygfeydd teulu a'u helpu i gael mynediad at wasanaethau'r GIG.

Bydd rhai ceiswyr lloches wedi profi trawma sylweddol cyn cyrraedd y DU ac mae'n bosibl y bydd arnynt angen cymorth ychwanegol i integreiddio'n lleol. Bydd Tîm Diogelu CRH yn cysylltu gyda'r Swyddfa Gartref, Canolfan Ddiogelu Ceiswyr Lloches y Swyddfa Gartref a'r Awdurdod Lleol os bydd unrhyw bryderon am ddiogelwch ac integreiddiad unigolion lle bo hynny'n briodol ac yn angenrheidiol.

**15. Sut fydd CRH yn sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at Feddygon Teulu, addysg a chyngor cyfreithiol, a sut fyddwch yn gweithio gyda'r Cyngor a swyddogion cymunedol yn Llanelli?**

Bydd ceiswyr lloches sydd newydd gyrraedd yn cael cynnig cofrestru gyda Meddyg Teulu lleol (bydd y GIG yn rhoi gwybod pa ganolfannau Meddyg Teulu sydd ar gael). Yn dilyn hynny, bydd yr unigolion yn cael cynnig yr un gwasanaethau GIG â thrigolion eraill y DU.

**16. Sut fydd CRH yn darparu cefnogaeth iechyd meddwl?**

Bydd staff lles CRH ar y safle wedi derbyn hyfforddiant i adnabod y symptomau o iechyd meddwl gwael, a bydd ganddynt fynediad at arbenigwyr diogelu hyfforddedig, yn ogystal â gwasanaethau llawn y GIG, lle bo angen.

## Migrant Help

1. **Beth yw rôl yr Arweinydd Ymgysylltu â'r Gymuned ar gyfer Migrant Help?**

Mae gan Migrant Help Gydlynwyr Ymgysylltu â'r Gymuned wedi'u lleoli ar draws y DU sy'n gweithio i sicrhau mynediad llyfn at wasanaethau lleol ac yn cydweithio i bontio'r bylchau. Rydym yn gweithio'n agos gyda phob partner lleol gan gynnwys y darparwr llety, gwasanaethau statudol a'r trydydd sector.

Ar gyfer Parc y Strade yn benodol, rydym yn rhan o rwydwaith o gyfarfodydd sy'n dod â phartneriaid ynghyd o'r sector gwirfoddol a'r sector cymunedol, yn ogystal â phartneriaid statudol, er mwyn sicrhau fod pawb yn derbyn y wybodaeth sydd ei hangen arnynt ac yn barod i gefnogi'r cleientiaid a gaiff eu symud i'r lleoliad hwn. Mae cynlluniau lefel uchel ar waith, a byddant yn cael eu mireinio unwaith y bydd yr amserlenni wedi'u cadarnhau. Mae'r drafodaeth bresennol yn cynnwys nifer o elusennau a chanolfannau crefyddol cenedlaethol a lleol yng ngorllewin Cymru, gan ystyried y canlynol:

- Dillad
- Gweithgarwch ystyrlon i bobl ar y safle megis dosbarthiadau ESOL
- Gweithgareddau i blant gan gynnwys mynediad at addysg a chefnogaeth ieithyddol ac mae rhan o'r uchod yn cynnwys trefniadau cludiant os darperir y gwasanaethau hyn oddi ar y safle.

Nid yw Migrant Help yn arwain ar hyn ond maent yn rhan o rwydwaith o bartneriaid sy'n cefnogi pobl ar y safle.

2. **A all Migrant Help helpu pobl i gael mynediad at wasanaethau megis cymorth cyfreithiol, iechyd meddwl?**

Mae ein timau Gweithredol Rhanbarthol yn cefnogi pob unigolyn sy'n symud i Lety Cychwynnol, gan gynnwys Gwestai / Safleoedd Wrth Gefn. Rydym yn estyn allan, yn aml drwy gefnogi'r darparwyr llety, i groesawu a chefnogi cleientiaid o fewn yr ychydig ddyddiau cyntaf ar ôl iddynt gyrraedd.

Mae Migrant Help yn cynnig Sesiwn Gynefino sy’n seiliedig ar hawliau’r cleient, sut mae’r system ceisio lloches yn gweithio, beth sydd i’w ddisgwyl ohonynt a beth allant ei ddisgwyl gan sefydliadau eraill, gan gynnwys mynediad at wasanaethau iechyd.  Fel rhan o’r broses honno, rydym hefyd yn cyfeirio at gynrychiolwyr cyfreithiol ac yn pwysleisio’r pwysigrwydd o ymgysylltu gyda gwasanaethau cyfreithiol cyn gynted â phosibl yn y broses.

Rydym hefyd yn eu helpu i gwblhau’r Ffurflen Gymorth i Geiswyr Lloches, sef cais cymhwysedd llawn am gymorth i geiswyr lloches, ac yn egluro’r camau nesaf.  Gan dybio y bydd eu cais yn llwyddiannus, byddwn hefyd yn rhoi cerdyn ASPEN iddynt - cerdyn credyd rhagdaledig a ddefnyddir i ddarparu cymorth ariannol wythnosol.  *Gweler dolen i Wasanaethau Migrant Help isod*

Download.ashx (migranthelpuk.org)

## Cyngor Sir Gâr

Codwyd nifer o bryderon yn y cwestiynau mewn perthynas â'r effaith ar ysgolion a gwasanaethau lleol. Yn amlwg, mae lleoli gymaint o bobl ddiamddiffyn mewn un lle'n cyflwyno heriau logistaidd. Nid ydym wedi derbyn unrhyw fanylion ynghylch anghenion y rhai a fydd yn cael eu lleoli, felly mae wedi bod yn anodd iawn cynllunio hyd yma. Nid yw'r awdurdod lleol yn derbyn cyllid ychwanegol ar gyfer y gwasanaethau hyn. Fodd bynnag, fe fyddwn, wrth gwrs, yn gwneud ein gorau glas i fodloni anghenion unrhyw blant a gaiff eu lleoli yma heb achosi straen i'r ysgol neu'r gwasanaeth. Fodd bynnag, sut bynnag mae pobl yn teimlo am y cynnig ehangach, mae'n bwysig ein bod ni'n amlinellu'n glir, os bydd y cynnig hwn yn mynd rhagddo, y byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i ddiogelu a chefnogi'r plant a gaiff eu lleoli yma mewn amgylchiadau anodd.

Mae gennym dîm arbenigol o gefnogaeth i blant gyda Saesneg neu Gymraeg fel ail iaith, a byddwn yn ystyried capasiti'r tîm hwn pan fydd gennym well dealltwriaeth o anghenion unrhyw blant pan neu os cânt eu lleoli.

Roedd tai wedi'i nodi fel pryder yn nifer o'r cwestiynau, a gallwn gadarnhau, er gwaethaf y cynnig hwn, y bydd unrhyw benderfyniadau yn ymwneud â thai'n seiliedig ar anghenion pobl a pholisi dyrannu presennol.

Codwyd nifer o bryderon hefyd yn y cwestiynau ynghylch sut mae'r cynnig wedi rhannu'r gymuned. Oherwydd hynny, credwn y dylid cael saib estynedig a gwella'r prosesau cyfathrebu gan y Swyddfa Gartref a Clearsprings. Pan fydd dyfodol y prosiect yn glir, bydd yn rhaid i'r gymuned ddod yn ôl at ei gilydd ac rydym yn barod i chwarae ein rhan yn hyn. Mae gwaith eisoes ar y gweill gyda disgyblion mewn ysgolion ar gyfer y tymor newydd.

## Heddlu Dyfed Powys

1. **Pa gamau fydd yn cael eu cymryd mewn perthynas â phobl sy'n protestio'n anghyfreithlon, yn mynd ar y tiroedd, ac yn defnyddio baneri a sarhad hiliol?**

   Mae cyfyngiadau ar beth rydym yn gallu ei drafod mewn perthynas ag achosion cyfredol, ond gallwn gadarnhau ein bod wedi arestio dros 20 o bobl. Mae Tîm Ymchwiliadau arbennig wedi cael ei sefydlu i ymdrin â'r galw ychwanegol. Bydd y tîm hwn yn parhau i adolygu lluniau, fideos, ffilm wedi'i dynnu gyda chamerâu corff a chynnwys ar-lein.

   Bydd Heddlu Dyfed Powys yn parhau i beidio â dangos tuedd, gan ganiatáu protestiadau heddychlon. Nid ydym yn gwneud penderfyniadau yn y broses hon, a'n rôl ni yw cadw'r heddwch a diogelu bywyd ac eiddo.

   Cydnabyddir y gall protestiadau heddychlon ymddangos yn swnllyd ac aflonyddgar i wylwyr. Yn anffodus, mae achosion wedi bod lle mae protestiadau wedi gwthio'r ffiniau heddychlon ar safle'r gwesty ac mae'r heddlu wedi gorfod cymryd camau ar y pryd neu'n dilyn y brotest i ymdrin â'r mater.

   Er ein bod yn caniatáu protestiadau heddychlon, ni fydd Dyfed-Powys yn goddef ymddygiad anghyfreithlon. Nid yw protest yn esgus i gyflawni trosedd.

   Lle bo trosedd yn cael ei chyflawni, byddwn yn cymryd camau rhesymol a chymesur i ymchwilio a dod â throseddwyr o flaen eu gwell.

   Os oes gan unrhyw un unrhyw wybodaeth a allai helpu ymchwiliadau'r heddlu, cysylltwch â ni. Fel arall, gallwch godi unrhyw bryderon am ymddygiad yr heddlu drwy'r un sianeli.

2. **Pa gymorth diogelwch fydd yn cael ei ddarparu i'r gymdogaeth er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon diogelwch ehangach yn y gymuned?**

   Cadw ein cymunedau'n ddiogel yw ein blaenoriaeth. Mae gan Heddlu Dyfed-Powys fwy o swyddogion heddlu nag erioed. Mae troseddau a bygythiadau'n fwy cymhleth bellach, felly mae gennym ragor o dimau arbenigol. Fodd bynnag, gallwn ail-leoli swyddogion a staff yn gyflym i atgyfnerthu ymateb rheng flaen yr heddlu lle bo angen.

   Mae tîm heddlua arbennig ar gyfer Ffwrnes ac mae'r swyddogion hynny wedi bod yn weledol iawn dros yr wythnosau diwethaf. Gallaf sicrhau'r cyhoedd ein bod yn cadw llygad barcud ar beth sy'n digwydd yn y gymuned leol.

   Rydym wedi addasu i'r heriau y mae'r gymuned wedi'u profi dros y misoedd diwethaf a byddwn yn parhau i wneud hynny. Byddwn bob amser yn gwrando ac yn ymateb i bryderon cymunedau. Mae swyddogion wedi ymweld â nifer o drigolion yn eu cartrefi ac rydym wedi gosod camera TCC ger y gwesty i helpu gyda'r heriau parhaus. Byddwn yn parhau i addasu i wybodaeth newydd ac yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid a'r gymuned wrth i'r sefyllfa hon barhau.

3. **A fyddech cystal ag egluro'r gwahaniaeth amlwg yn ymddygiad yr heddlu tuag at brotestwyr, a'r bobl sy'n cynrychioli'r gwesty?**

   Mae'r sefyllfa yng Ngwesty Parc y Strade wedi bod yn hynod o heriol i'r swyddogion ar y tir, a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau am yr ymateb gweithredol. Mae'r heddlu'n dibynnu ar bwerau deddfwriaethol amrywiol ac mae'n rhaid iddynt ystyried hawliau bob parti sy'n gysylltiedig â'r sefyllfa. Mae hyn yn cynnwys trigolion a phobl eraill yn yr ardal nad ydynt yn gysylltiedig neu ynghlwm â'r protestwyr yn uniongyrchol. Caiff unrhyw benderfyniadau a gaiff eu gwneud gan yr heddlu eu hystyried yn ofalus a'u cydbwyso yn erbyn y dull cenedlaethol ar gyfer gwneud penderfyniadau.

   Mae difrod sylweddol wedi'i wneud i eiddo'r gwesty, sy'n parhau i fod yn destun ymchwiliad. Fel y byddai'r cyhoedd yn ei ddisgwyl gan yr heddlu lleol, ni fyddwn yn goddef ymddygiad troseddol. Mae'n hollbwysig nad yw protest heddychlon yn datblygu i fod yn anghyfreithlon, a gobeithir y bydd pawb yn gallu symud ymlaen mewn modd digynnwrf a pharchus.

   Er y gall penderfyniadau ymddangos yn annheg i'r rhai sy'n protestio o fewn y gyfraith, mae achosion wedi bod lle gellir gweld gwahaniaeth amlwg rhwng unigolion sy'n ymddwyn mewn modd cyfreithlon a'r rheiny sy'n mynd yn groes i'r rheolau heddychlon neu'n cyflawni troseddau.

   Mae'r heriau diweddar mewn perthynas â chasgliadau gwastraff, sydd wedi atal cerbydau rhag casglu pentyrrau sbwriel, wedi peri risg i ddiogelwch y gymuned ehangach. Mae'n rhaid i risgiau o niwed sylweddol fel hyn gymryd blaenoriaeth mewn unrhyw sefyllfa.

   Deallwn y gall safbwynt yr heddlu o ran gwisgo gorchuddion wyneb ymddangos yn annheg i rai. Safbwynt yr heddlu yw bod gwahaniaeth amlwg

wedi bod ym mwriad y rhai sy'n gwisgo gorchuddion wyneb (ar adegau). Yn gyffredinol, ymddengys bod gyrwyr wedi bod yn gwisgo gorchuddion wyneb er mwyn ein hatal rhag gallu eu hadnabod ar gamera wrth iddynt gyflawni eu busnes cyfreithiol. Mae unigolion eraill wedi bod yn gwisgo gorchuddion wyneb er mwyn osgoi erlyniad ar ôl cyflawni trosedd. Mae achosion cyfredol yn fy atal rhag mynd i ragor o fanylder mewn perthynas â hyn, a derbynnir ein bod yn cyffredinoli drwy ddweud hyn. Fodd bynnag, mae'r gwahaniaeth amlwg o ran y bwriad yn yr amgylchiadau hyn wedi arwain at ddefnyddio pwerau'r heddlu i atal y defnydd o orchuddion wyneb mewn rhai amgylchiadau.

***4.*** **Pam fod cynhyrfwyr adain dde'n cael aflonyddu pobl ar y stryd ac eraill sy'n ceisio cynnal protestiadau heddychlon?**

Mae'r Heddlu wedi arestio dros 20 o unigolion y credir eu bod wedi mynd y tu hwnt i ffiniau protest heddychlon. Byddwn yn parhau i weithredu, naill ai ar unwaith neu yn dilyn y drosedd, lle bo hynny'n gymesur ac yn rhesymol. Rydym yn gweld pobl yn dychwelyd i brotestiadau heddychlon yn dilyn yr arestiadau hyn.

**5. Mae'r protestiadau hyd yma wedi bod yn llwyddiannus gan eu bod wedi canolbwyntio ar effeithiau lleol y cynnig hwn. Fodd bynnag, mae'n anochel y bydd y protestiadau'n denu pobl sydd naill ai'n awyddus i ledaenu neges am eu rhesymau eu hunain, neu i achosi helynt. Sut fydd hyn yn cael ei reoli?**

Rôl yr heddlu yw cadw'r heddwch, a pharhau'n deg ac yn ddiduedd. Mae'r sefyllfa hon yn parhau i fod yn gymhleth ac mae wedi bod yn heriol iawn.

Rydym wedi caniatáu protestiadau heddychlon yn y mwyafrif helaeth o achosion drwy gydol y broses hon a byddwn yn parhau i wneud hynny. Fodd bynnag, ni fyddwn yn goddef ymddygiad troseddol ac rydym wedi arestio 20 o unigolion hyd yma - ac mae'r mwyafrif o'r arestiadau hynny wedi bod yn bobl yr ystyrir eu bod yn brotestwyr.

Byddwn yn parhau i wrando ac ymgysylltu gyda phreswylwyr a phrotestwyr bob dydd ac yn ymateb i adborth a phryderon y gymuned. Cydnabyddir y gall protest heddychlon ymddangos yn frawychus ar adegau, a gobeithir y bydd pawb yn gallu symud ymlaen mewn modd heddychlon a pharchus.

**6. O ystyried y teimladau cryf mewn perthynas â'r mater hwn, a fydd cyllid yn cael ei ddarparu ar gyfer patrolau heddlu ychwanegol?**

Gweler yr ateb i gwestiwn dau. Rydym yn ymrwymo i gadw'r gymuned yn ddiogel a bydd y tîm heddlua arbennig ar gyfer Ffwrnes yn parhau i fod mor weledol â phosibl.

**7. Pa gynlluniau sydd ar waith i ddiogelu pobl Llanelli a'n cadw ni gyd yn ddiogel unwaith y bydd pobl yn byw yng Ngwesty Parc y Strade?**

Nid oes gennym unrhyw wybodaeth bendant ar hyn o bryd i awgrymu y bydd y gymuned yn llai diogel unwaith y bydd preswylwyr - teuluoedd sy'n ceisio lloches - yn cyrraedd y gwesty. Bydd yr heddlu'n parhau i fonitro'r sefyllfa ac yn addasu unrhyw wybodaeth newydd i gadw'r gymuned a phreswylwyr y gwesty'n ddiogel.

8. **A fyddech cystal â rhoi gwybod pam bod nifer uchel o swyddogion yn gwarchod Parc y Strade? Nid yw hyn yn ddefnydd da o adnoddau cyhoeddus ac mae'n amlwg yn y fideos mai pwrpas hyn yw mynd yn erbyn protestiadau heddychlon. Mae tystiolaeth fideo o swyddogion yn defnyddio grym heb gyfiawnhad ac arestio ar gam. Pam nad oes prosesau rheoli perfformiad ar waith mewn perthynas â hyn? Maent yn gwylio troseddau'n cael eu cyflawni gan y gweithwyr a swyddogion diogelwch, gan gynnwys achos o daro a ffoi a throseddau cerbyd ac yn gwneud dim. Pam eu bod nhw'n gweithredu yn erbyn y bobl y dylent fod yn eu diogelu? A allwch chi gadarnhau/ateb yr uchod os gwelwch y n dda?**

*Gweler yr ateb i gwestiwn un.*

9. **Pa gefnogaeth ddiogelwch fydd yn cael ei darparu i ardaloedd cyfagos megis Parc Howard, yr Ardd Rosod, Canol Tref Llanelli a Pharc y Bobl. Mae pryderon ehangach yn ymwneud â diogelwch wedi'u nodi yn y gymuned. Mae'r heddlu'n symud allan o Lanelli i Ddafen.**

*Gweler yr ateb i gwestiwn dau.*

Mae gorsaf heddlu Llanelli'n parhau i fod ar agor yn y dref ac nid ydym wedi lleihau patrolau swyddogion yn yr ardal. Mae rhai swyddogion yn gweithio yn yr orsaf newydd yn Nafen sy'n cynnwys cyfleuster rheoli newydd ar gyfer Sir Gâr. Yn y gorffennol, mae swyddogion Llanelli wedi bod yn teithio i gyfleuster rheoli Rhydaman, ond nid yw hynny'n digwydd mwyach. Mae hyn yn sicrhau bod modd i swyddogion heddlu dreulio rhagor o amser ar batrolau yn nhref Llanelli.

10. **Mae'r protestiadau hyd yma wedi bod yn llwyddiannus gan eu bod wedi canolbwyntio ar effeithiau lleol y cynnig hwn. Fodd bynnag, mae'n anochel y bydd y protestiadau'n denu pobl sydd naill ai'n awyddus i ledaenu neges am eu rhesymau eu hunain, neu i achosi helynt. Mae'r ffaith bod Heddlu Dyfed-Powys wedi rhoi Gorchymyn Adran 60AA ar waith yn awgrymu bod hyn eisoes yn digwydd. Fel trigolion lleol, rydym eisoes wedi gweld grwpiau o bobl yn ymgynnull y tu hwnt i safle'r brotest yn yfed alcohol, difrodi eiddo, gwneud sŵn (gan gynnwys tân gwyllt) a thaflu sbwriel. Rwyf wedi cael fy ngham-drin ar lafar yn bersonol gan unigolyn nad oedd yn lleol wrth gymryd rhan mewn cyfweliad gyda S4C yn egluro ein safbwynt. Sut fydd hyn yn cael ei reoli yn y dyfodol?**

Gweler yr ateb i gwestiwn pump. Ymhellach at hynny, hoffwn wahodd unrhyw drigolion sy'n bryderus i gysylltu gyda ni, a byddwn yn trefnu ymweliad er mwyn cynnig sicrwydd a chefnogaeth i unigolion yn y gymuned leol.

11. **Mae Gwesty Parc y Strade wedi'i leoli ar ffordd sy'n llwybr prysur i Gaerfyrddin. Mae'r ffordd y tu allan i'r gwesty wedi cael ei chulhau i un lôn gan fod protestwyr yn parcio eu ceir yno 24 awr o'r dydd. Mae hyn yn gwneud pethau'n anodd iawn yn ystod cyfnodau prysur gan fod y safle wedi'i leoli ar dro ac felly ni ellir gweld o un ochr i'r rhwystr i'r llall. Yn ogystal â hynny, mae'r palmant yn eithaf cul sy'n golygu fod pobl yn cerdded ar y ffordd ei hun o bryd i'w gilydd. A ydych wedi ystyried rhoi trefniadau rheoli traffig ar waith e.e. goleuadau traffig dros dro? Oherwydd byddai cadw pethau fel y maent ar hyn o bryd yn debygol o achosi damwain.**

Rydym wedi cydnabod hyn ac yn trafod y mater mewn fforymau partneriaeth. Mae'n rhaid i unrhyw gamau a gymerir gydbwyso hawliau pawb sy'n gysylltiedig ac yn defnyddio'r lleoliad.

12. **Mae'r costau sydd ynghlwm â heddlua'r materion mewn perthynas â gwesty Parc y Strade'n cynyddu, a gellir dadlau eu bod allan o reolaeth. Sut gellir rheoli hyn yn effeithiol er lles cymuned gyfan Llanelli i'r dyfodol?**

Gweler yr ateb i gwestiwn dau.

13. **Mae sawl achlysur wedi bod lle nad yw'r heddlu wedi ymateb i alwadau i weithredu gan brotestwyr gan gynnwys:**

- **Torrodd swyddogion a gweithwyr diogelwch Sterling Woodrow a Gryphon Leisure ffensys drwy dorri'r clo (ar dir preifat) nad oedd yn eiddo iddyn nhw, a dwyn y ffens drwy ei waredu o dir y gwesty.**

- **Anafwyd protestiwr gan gar a oedd yn gwasanaethu'r gwesty a yrrodd i ffwrdd heb stopio. Pan heriwyd yr heddlu, dywedwyd nad oeddent yn gallu gwneud unrhyw beth gan fod hyn wedi digwydd ar eiddo preifat (sy'n destun dadl). Cludwyd y protestiwr ar ambiwlans i ysbyty Caerdydd.**

- **Gwnaed bygythiadau yn erbyn y protestwyr gan grŵp gwrth-hiliaeth. Rhoddwyd gwybod i'r heddlu am hyn drwy ffonio 999 yn ystod y nos, ond roedd 9 awr wedi mynd heibio cyn iddynt ymateb ac ymweld â'r safle, gan adael y protestwyr yn ddiamddiffyn.**

- **Taflodd swyddogion diogelwch gerrig a llestri at safle'r protestwyr ac ni chafodd unrhyw gamau eu cymryd gan yr heddlu pan roddwyd gwybod iddynt.**

**·　Caniataodd yr heddlu i weithwyr a oedd yn gwasanaethu'r gwesty wisgo balaclafas wrth gyrraedd a gadael y safle.**

**Fodd bynnag, ni weithredodd yr heddlu yn yr un modd yn erbyn y protestwyr yn yr achosion canlynol:**

**-　Gwnaethpwyd sylwadau bychanol (ond heb fod yn anghyfreithlon) am swyddog heddlu mewn fideo byw.**

**·　Difrodwyd car (a yrrwyd gan weithiwr a oedd yn gwasanaethu'r gwesty) wrth facio drwy fynedfa'r gwesty, ac arestiwyd protestiwr hŷn am hyn, er bod y fideo'n dangos yn glir nad dyna oedd yr achos o gwbl. Cymharwch hyn gyda'r diffyg gweithredu gan yr heddlu pan gafodd protestiwr ei anafu a'r heddlu'n honni nad oeddent yn gallu gwneud dim gan ei fod wedi digwydd ar eiddo preifat. Cafodd y car ei ddifrodi ar eiddo preifat, felly pam na wnaeth yr heddlu ddewis gwneud dim am hyn hefyd?**

**·　Gwnaethpwyd nifer o arestiadau pan rwystrodd protestwyr fynedfa answyddogol i'r gwesty a adeiladwyd drwy greu twll mewn clawdd o amgylch y gwesty. Cynorthwyodd yr heddlu â difrodi'r clawdd i greu mynedfa a lleolwyd nifer o swyddogion yno i rwystro'r protestwyr rhag atal pobl rhag defnyddio'r fynedfa answyddogol.**

**·　Gwthiodd swyddog heddlu brotestiwr yn ei ôl a ddisgynnodd ar garreg (mae tystiolaeth fideo o hyn).**

**A fyddech cystal ag egluro'r gwahaniaeth amlwg yn ymddygiad yr heddlu tuag at brotestwyr, a'r bobl sy'n cynrychioli'r gwesty?**

Awgrymwn fod yr awdur yn defnyddio un o'r opsiynau dan y weithdrefn gwyno a amlinellir ar [wefan Heddlu Dyfed-Powys. <https://www.dyfed-powys.police.uk/>](https://www.dyfed-powys.police.uk/)

## Iechyd

1. **Hoffwn wybod ble fydd preswylwyr y gwesty'n derbyn eu cymorth meddygol: nid yw'r gwasanaethau Meddyg Teulu yn Llanelli'n gallu ymdopi â'r trigolion sydd eisoes yn byw yma, er enghraifft, yr wythnos ddiwethaf, bu'n rhaid i mi ffonio'r feddygfa 72 o weithiau cyn cael gwybod nad oedd unrhyw apwyntiadau ar ôl ar gyfer babi 10 wythnos oed.**

Ni allwn gynnig sylwadau ar achosion unigol, fodd bynnag, rydym yn hapus i ymdrin â'r mater gydag unrhyw unigolion sydd â phryderon am fynediad at wasanaethau. Mae cyfarfod cychwynnol wedi cael ei gynnal gydag arweinwyr Meddygon Teulu yn Llanelli, a bydd cyfarfodydd parhaus yn cael eu cynnal gyda nhw i sicrhau cyn lleied â phosibl o effaith ar y system iechyd. Bydd cleifion wedi'u lleoli ym Mharc y Strade'n cael eu dyrannu i Ganolfannau Meddyg Teulu i sicrhau bod y cofrestriadau'n cael eu rhannu'n gyfartal er mwyn sicrhau cyn lleied o effaith â phosibl ar fynediad i unrhyw gleifion.

2. **A fydd gan y preswylwyr unrhyw gyflyrau heintus, a sut fydd hyn yn cael ei wirio?**

Ni allwn ateb hyn gan nad ydym yn ymwybodol eto pwy fydd y preswylwyr. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal Asesiad Iechyd Cychwynnol i sicrhau y gellir cynnig sgriniad priodol, gan gynnwys brechlynnau ac imiwneiddiadau.

3. **A fydd yna unrhyw adnoddau GIG ychwanegol, er enghraifft Meddygon Teulu neu ddeintyddion? Mae'n anodd iawn cael apwyntiadau ar hyn o bryd, yn arbennig gyda'r deintydd.**

Bydd canolfannau Meddyg Teulu'n derbyn taliad Gwasanaeth Estynedig i'w helpu i ddarparu gwasanaethau meddygol cyffredinol i'r ceiswyr lloches. Mae'n

ofynnol i'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol ddarparu gofal i grwpiau cleifion diamddiffyn ac felly bydd gofyn iddynt weld unrhyw gleifion sydd ag unrhyw anghenion deintyddol brys. Ni fydd gofal deintyddol rheolaidd yn cael ei ddarparu.